PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2024

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Jones, Lloyd Jones, Shimmin a/ac Thomson |

72 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Brown-Reckless

73 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd buddiannau gan:
Y Cynghorydd Thomson – buddiant personol/rhagfarnus – ar fin cymryd rôl gyda Theatr Genedlaethol Cymru sy'n derbyn arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
Y Cynghorydd Jackie Jones – buddiant personol – Ymddiriedolwr Cymru Ddiogelach
Y Cynghorydd Henshaw - buddiant personol - Dirprwy Arglwydd Faer ac mae aelodau o’r teulu’n gweithio i’r Cyngor.

74 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

75 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2024-2027 A CHYNIGION CYLLIDEB DDRAFFT 2024/25

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i’r Aelodau ystyried yr eitemau hynny yn y Cynllun Corfforaethol drafft a'r Cynigion Cyllideb ddrafft sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad eglurhaol craffu fel rhan o'u pecyn o bapurau ac mae hyn wedi'i strwythuro fesul portffolios Aelodau'r Cabinet, byddai'r Aelodau'n cael eu cyfeirio at baragraffau perthnasol yr adroddiad eglurhaol wrth i'r cyfarfod fynd yn ei flaen.

Yn gyntaf, byddai’r Aelodau'n cael sesiwn friffio ar y Trosolwg Corfforaethol o’r cynigion cyllideb ddrafft.

Wedyn, byddai’r cynigion cyllideb a’r rhannau perthnasol o'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu hystyried fesul portffolio Aelod Cabinet.

<u>Trosolwg Corfforaethol</u>
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Chris Lee - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood - Pennaeth Cyllid ar gyfer y rhan hon.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau i bapurau cyllideb a roddir i Bwyllgorau Craffu yn y dyfodol gynnwys y wybodaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) lawn fel arfer safonol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'r holl AEGau a gynhaliwyd ar gynigion Cyllideb 2024/25 gael eu dosbarthu i bob Pwyllgor Craffu, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Cydnabu'r Aelodau ymrwymiad y Cyngor i'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (y Confensiwn) o fewn y Cynllun Corfforaethol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Confensiwn wedi bod yn ffocws canolog wrth ddatblygu a chyflawni strategaethau allweddol y Cyngor, fel Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a’r Fro.

Ystyriodd yr Aelodau y broses a oedd yn cael ei defnyddio i benderfynu ar y ffordd o ddefnyddio a dyrannu cronfeydd wrth gefn a nodon nhw’r sicrwydd a roddwyd gan Swyddog Adran 151 y Cyngor ynghylch cadw cronfeydd wrth gefn i gynnal gwydnwch ariannol.

Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o gyfran yr ariannu cyfalaf a oedd yn cael ei thalu gan incwm o brosiectau yr oedd arian yn cael ei fenthyg ar eu cyfer, grantiau, ac arian o gronfa wrth gefn/refeniw cyffredinol y Cyngor. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai hyn yn rhoi eglurder ar effaith benthyca ar gyllideb refeniw'r Cyngor.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y sefyllfa ariannol gydag ysgolion a phwysleision nhw bwysigrwydd cydweithio'n agos ag ysgolion i reoli a lliniaru'r heriau ariannol yn effeithiol.

<u>Portffolio’r Cynghorydd Burke</u>
Ar gyfer y rhan hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Jon Day - Rheolwr Gweithredol, Buddsoddi a Thwristiaeth a Jon Maidment, Pennaeth Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad oes cynnydd arfaethedig mewn prisiau ar gyfer llogi Castell Caerdydd, gan ystyried y cyd-destun ariannol presennol. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai bwriad hyn oedd hyrwyddo'r Castell. Awgrymodd yr Aelodau, er bod hyrwyddo'r Castell yn bwysig, y gellid ystyried cynnydd mewn prisiau.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at y potensial i gynhyrchu incwm drwy ffioedd ar gyfer ffilmio yn y ddinas, o ystyried poblogrwydd Caerdydd ymhlith cwmnïau cynhyrchu teledu. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch pryd y cynyddwyd ffioedd ffilmio Caerdydd diwethaf, cymhariaeth o gostau gyda dinasoedd cyfagos, a chymhariaeth ehangach o ffioedd gyda dinasoedd craidd.

Gan gyfeirio at Gynnig Cyllideb y Plasty, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd a chadarnhad bod y cytundeb rhoddion yn galluogi'r Cyngor i brydlesu neu waredu'r eiddo. Croesawodd yr Aelodau y sicrwydd a roddwyd ar lafar ond gofynnon nhw am gadarnhad ysgrifenedig ar ôl i wiriadau pellach gael eu cynnal.

Trafododd yr Aelodau Gynnig Newid Gwasanaethau'r Gyllideb Brotocol a chydnabuon nhw y rhaglen lai o ddigwyddiadau ar gyfer yr Arglwydd Faer o ganlyniad i'r cynnig. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y bydd yr effaith yn cael ei rheoli'n ofalus drwy ddefnyddio adnoddau yn nhimau Digwyddiadau'r Cyngor.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch goblygiadau diogelwch posibl oherwydd newidiadau arfaethedig yng Nghynigion y Gyllideb Meysydd Chwarae.  Dywedodd y swyddogion na fyddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar rwymedigaethau diogelwch neu statudol.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am eglurder ynghylch sut y byddai'r cynnig i leihau ceidwaid parciau'n effeithio ar Grwpiau Cyfeillion a gofynnon nhw am fwy o wybodaeth i ddeall yr effaith bosibl ar ymgysylltu â'r gymuned a chynnal a chadw parciau.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am y cynnig i leihau swyddi prentisiaeth yn y cynllun parciau, gan ystyried ymrwymiadau'r Cyngor ynghylch addysg a chyflogaeth.

Wrth drafod Ailddatblygiad Canolfan Hamdden Pentwyn, nododd yr Aelodau fod disgwyl i'r gwaith o ailddatblygu Canolfan Hamdden Pentwyn ddod i ben erbyn haf 2025.  Nododd y swyddogion y dyraniad o £3m yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y prosiect a'r bwriad i gael gafael ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer lleihau carbon.  Roedd yr Aelodau'n falch o nodi llwyddiant yr ymgysylltu â'r gymuned ar y prosiect hwn yn dilyn argymhellion gan y pwyllgor craffu hwn.

Croesawodd yr Aelodau y cadarnhad o £1.5m o Gyllid Ffyniant Cyffredin ar gyfer prosiectau hamdden, gan enwi Pentwyn yn benodol ar gyfer datblygu.

<u>Portffolio'r Cynghorydd Goodway</u>
Ar gyfer y rhan hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas - Arweinydd Cyngor Caerdydd (yn lle'r Cynghorydd Goodway); Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Donna Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir a Jon Day - Rheolwr Gweithredol, Buddsoddi a Thwristiaeth.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Ystyriodd yr Aelodau agweddau rheoli risg yn ymwneud â symiau sylweddol a ddyrannwyd o fewn y Rhaglen Gyfalaf. Croesawodd yr Aelodau y sicrwydd a roddwyd gan y Cynghorydd Thomas ynghylch gwydnwch a gwariant yn y dyfodol.

Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd rhagolygon economaidd dangosol, yn enwedig o ran cyfraddau llog, wrth roi sicrwydd a hyder ychwanegol.  Croesawodd yr Aelodau yr ymrwymiad i fonitro ac asesu datblygiad prosiectau'n ofalus.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad ar gyllid ar gyfer y Felodrom yn y Pentref Chwaraeon, gan ystyried opsiynau newydd posibl ar gyfer gwaith ailadeiladu Band B Ysgol Uwchradd Cathays. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad yw'r amserlenni ar gyfer y prosiectau hyn yn hysbys o hyd ond pwysleisiwyd yr ymrwymiad i greu ysgol 'o'r radd flaenaf' a phwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried pob cyfle ynghylch lleoliad y Felodrom ac ysgol uwchradd newydd Cathays.

<u>Portffolio'r Cynghorydd Merry</u>
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry - Dirprwy Arweinydd, a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Suzanne Scarlett, Rheolwr Partneriaethau a Pherfformiad a Carly Davies Rheolwr y Rhaglen Addewid Caerdydd mewn Addysg a Dysgu Gydol Oes, Partneriaethau a Pherfformiad

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau a sylwadau/arsylwadau.

Croesawodd yr Aelodau y dyraniad o £200,000 i Addewid Caerdydd drwy'r Mecanwaith Gwydnwch Ariannol. Yn ogystal, roeddent yn gwerthfawrogi'r mewnwelediadau a roddwyd gan y Cynghorydd Merry ynghylch cyfleoedd i'r Cyngor gael mynediad at gyllid i gefnogi'r addewid hwn ymhellach.

<u>Portffolio'r Cynghorydd Bradbury</u>
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury – yr Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc a Helen Evans - Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau ar gyfer y rhan hon.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Cydnabu'r Aelodau gyflawniadau'r timau i Mewn i Waith, yn enwedig y cynnydd yn y cymorth i geiswyr gwaith o gymunedau ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, pwysleision nhw bwysigrwydd asesu nifer yr ymyriadau ystyrlon mewn cydweithrediad â'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol. Yn ogystal, pwysleision nhw bwysigrwydd argymhelliad y Panel Craffu Perfformiad i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r mater hwn i'w cynnwys mewn Cynlluniau Corfforaethol yn y dyfodol.

Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at yr angen i ystyried ymhellach pam mae anghyfartaledd yn bodoli wrth gael mynediad i'r farchnad lafur er gwaethaf gwahaniaethau mewn perfformiad academaidd ymhlith grwpiau ethnig. Pwysleision nhw bwysigrwydd sicrhau bod y mater hwn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cabinet a mynegon nhw werthfawrogiad o ymrwymiad y Cynghorydd Bradbury i fynd i'r afael ag ef.

<u>Portffolio'r Cynghorydd Thorne</u>
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Rebecca Hooper – Rheolwr Gweithredol, Adfywio Cymdogaethau a Helen Evans - Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Tai a Chymunedau ar gyfer y rhan hon.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny rhoddodd y swyddogion gyflwyniad a gofynnwyd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau a sylwadau/arsylwadau.

Mynegodd yr Aelodau foddhad â'r broses ymgynghori leol ar gyfer y cynigion o ran amseroedd agor llai hybiau a llyfrgelloedd (Cyf: HACSC3) ond roedd ganddynt bryderon o hyd am yr effaith bosibl ar staff, grwpiau lleol a thrigolion. Gofynnon nhw am ddadansoddiad o sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar bob llyfrgell/hyb rhestredig er mwyn deall yn well yr effaith yn y cymunedau. Yn ogystal, trafodon nhw effaith y cynnig arbed i gynyddu gwirfoddolwyr yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd (Cyf: HACSC5) a mynegon nhw bryderon ynghylch colli gwybodaeth a sgiliau o bosibl. Nodon nhw'r angen i gadw gwybodaeth a sgiliau penodol a dywedwyd wrthynt y byddai angen tua 4 neu 5 o wirfoddolwyr i gyflawni llwyth gwaith 1 swydd gyfwerth â llawn amser oherwydd yr oriau amrywiol sydd ar gael gan wirfoddolwyr.

Profodd yr Aelodau ecwitïaeth Hybiau a Llyfrgelloedd, gan nodi nad ydynt wedi'u lleoli ym mhob ward y ddinas. Croesawon nhw'r sicrwydd gan yr Aelod Cabinet fod gwerth Hybiau a Llyfrgelloedd yn cael ei gydnabod ac y byddent yn cael eu diogelu gymaint â phosibl.

Mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch symud papurau newydd ffisegol o lyfrgelloedd a hybiau, gan bwysleisio arwyddocâd y golled hon i rai trigolion. Gwerthfawrogon nhw'r sicrwydd a roddwyd yn y cyfarfod bod y pryder hwn yn cael ei gydnabod ac y byddai'n cael ei reoli'n ofalus. Croesawodd yr Aelodau hefyd y cytundeb gan y Swyddogion i ystyried y cynnig ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol neu waith perthnasol arall y gwasanaeth, gan ystyried y posibilrwydd o nawdd busnesau i sicrhau bod papurau newydd copi caled ar gael mewn Hybiau a Llyfrgelloedd, a allai roi cyfleoedd hysbysebu iddynt.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

76 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

77 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

19 Mawrth 2024, 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm